

PWYLLGOR CRAFFU DECHRAU'AN DDA

Hysbysiad o Benderfyniad – Cyfarfod o Bell, 7 Gorffennaf, 2025.

Mae'r Agenda ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Y Cynghorydd H.M. Payne (Is-gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, J. Aviet, W. Gilligan, E. Goodjohn, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, N.P. Hodges a J. Lynch-Wilson.

Aelodau Cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Babyddol), L. Barrowclough (Rhiantlywodraethwr – Sector Cynradd), P. Bond a R. Davies (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorydd E. Penn; G. Van der Burgt (Rhiantlywodraethwr – Sector Uwchradd) ac M. Werrett (Yr Eglwys yng Nghymru).

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – Y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mai, 2025 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd J. Aviet fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem Agenda 4 - Crynodeb o Ganlyniadau Arolygiad Estyn ar gyfer Tymor y Gwanwyn 2025 a Diweddariad ar Ysgol sydd mewn Dilyniant Statudol. Natur y buddiant oedd bod y Cynghorydd Aviet yn Llywodraethwr ar gyfer Ysgol Gynradd Oakfield a bod ganddo aelod o'r teulu a oedd yn gweithio yn Ysgol Uwchradd Pencoedre. Roedd y Cynghorydd Aviet wedi derbyn gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau felly arhosodd yn y cyfarfod am hyd yr adroddiad.

EITEM AGENDA 4. CRYNODEB O GANLYNIADAU AROLYGIAD ESTYN AR GYFER TYMOR Y GWANWYN 2025 A DIWEDDARIAD AR YSGOL SYDD MEWN DILYNIANT STATUDOL (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Llongyfarch y tair ysgol a gafodd arolygiad craidd lle na nodwyd unrhyw weithgarwch dilynol Estyn.
- (2) Diolch i Bennaeth Ysgol Gynradd Oakfield am rannu eu profiad o arolygiad Estyn yr ysgol.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 5. CYNRYCHIOLAETH AR GYLLIDEB YSGOLION A'R FFORWM DERBYNIADAU (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y bod y Cynghorydd Wendy Gilligan yn cael ei phenodi'n Gynrychiolydd y Pwyllgor Craffu ar Fforwm Cyllideb Ysgolion.
- (2) Y bod y Cynghorydd Wendy Gilligan yn cael ei phenodi'n Gynrychiolydd y Pwyllgor Craffu ar Fforwm Derbyniadau Ysgolion.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Er mwyn sicrhau bod y Fforymau'n cynnwys Aelod o Bwyllgor Craffu Dechrau'n Dda.

EITEM AGENDA 6. GWEITHGAREDD ADOLYGU GORCHWYL A GORFFEN (CAC) –

ARGYMHELLWYD – yn amodol ar gyngor cyfreithiol ynghylch pleidleisio Aelodau Cyfetholedig, y dylid cynnal adolygiad Gorchwyl a Gorffen o'r Cronfeydd Adnoddau Anghenion Dysgu Ychwanegol fel blaenoriaeth, a phan fydd wedi'i gwblhau bydd adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn cael ei ddilyn gan – “Beth fu'r effaith ar ysgolion yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd i gydbwyso cyllidebau”.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.